# Y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth

## Agenda (SLC (3)-26-08)

**Dyddiad: 18 Tachwedd 2008**
**Amser : 8.45am**
**Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 3, y Senedd**

### Eitem 1: Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

### Eitem 2: Offerynnau ac offerynnau drafft na fydd y Cynulliad yn cael ei wahodd i roi sylw arbennig iddynt o dan Reol Sefydlog 15.2.

### Eitem 2.1: Offerynnau sy'n agored i gael eu dirymu yn unol â phenderfyniad gan y Cynulliad (y weithdrefn negyddol)

SLC217 - Rheoliadau Taliadau Colli Cartref (Symiau Rhagnodedig) (Cymru) 2008

Y weithdrefn negyddol. Fe'u gwnaed ar 2 Tachwedd 2008. Fe'u gosodwyd ar 4 Tachwedd 2008. Yn dod i rym ar 25 Tachwedd 2008

Mae'r Rheoliadau hyn yn rhagnodi uchafsymiau ac isafsymiau newydd ar gyfer y Taliadau Colli Cartref. Cynyddir yr uchafswm o £44,000 i £47,000 a'r isafswm o £4,400 i £4,700. Bydd y taliad safonol yn cynyddu o £4,400 i £4,700. Dirymir Rheoliadau Taliadau Colli Cartref (Symiau Rhagnodedig) (Cymru) 2007.

### Eitem 3: Offerynnau y bydd y Cynulliad yn cael ei wahodd i roi sylw arbennig iddynt o dan Reol Sefydlog 15.2

### Eitem 3.1: Offerynnau sy'n agored i gael eu dirymu yn unol â phenderfyniad gan y Cynulliad (y weithdrefn negyddol)

SLC216 - Rheoliadau Cyfraniadau Ardrethu Annomestig (Cymru) (Diwygio) 2008

Y weithdrefn negyddol. Fe'u gwnaed ar 28 Hydref 2008. Fe'u gosodwyd ar 31 Hydref 2008. Yn dod i rym ar 31 Rhagfyr 2008.

Mae'r Rheoliadau hyn, sy'n gymwys o ran Cymru, yn diwygio Rheoliadau Cyfraniadau Ardrethu Annomestig (Cymru) 1992 ("Rheoliadau 1992").

O dan Ran II o Atodlen 8 i Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 mae'n ofynnol i awdurdodau bilio (yng Nghymru, cynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol) dalu symiau (a elwir yn gyfraniadau ardrethu annomestig) i Weinidogion Cymru. Mae Rheoliadau 1992 yn cynnwys rheolau ar gyfer cyfrifo'r cyfraniadau hynny ar gyfer awdurdodau bilio Cymru. Mae Rheoliadau 2008 yn diwygio Rheoliadau 1992 drwy roi Atodlen 4 newydd yn lle'r un bresennol (Ffigurau Poblogaeth Oedolion). Mae Rheoliadau 2008 yn diweddaru'r ffigurau poblogaeth oedolion ar gyfer pob cyngor. Defnyddir y rhain i bennu trothwy ar gyfer awdurdodau lleol er mwyn ailgyfrif, lle mae hynny'n angenrheidiol, eu cyfraniadau dros dro i'r gronfa. Os na wneir y newidiadau hyn, bydd yr amcangyfrifon a wneir gan awdurdodau lleol er mwyn cyfrannu i'r gronfa gyfunol yn anghywir gan y byddant wedi'u seilio ar ffigurau poblogaeth blynyddoedd blaenorol, sydd bellach wedi newid.

### Eitem 4: Unrhyw fater arall

### Eitem 5: Dyddiad y cyfarfod nesaf